

Panel Defnyddwyr Rhaglen 'Rheoleiddio Ein Dyfodol'

Crynodeb Gweithredol

Rhagfyr 2017

James MacGregor, Anna Cordes, Lindsay Abbassian

JN 260139526

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am gynnal trefn reoleiddio effeithiol sy'n cadarnhau bod busnesau bwyd yn bodloni eu rhwymedigaeth i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Nid yw'r model rheoleiddio presennol wedi newid rhyw lawer dros y 30 mlynedd diwethaf. Er ei fod wedi diogelu defnyddwyr a busnesau yn effeithiol o fewn y gadwyn fwyd, nid yw'n manteisio ar arloesedd technolegol nac yn adlewyrchu sut mae system fwyd y Deyrnas Unedig (DU) wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Yng ngoleuni hyn, mae'r ASB yn diwygio'r model rheoleiddio presennol fel rhan o'i rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.

Cyn 2017, comisiynodd yr ASB ystod o weithgareddau mewnwelediad ac ymgysylltu i sicrhau bod system reoleiddio'r dyfodol yn adlewyrchu anghenion a buddiannau gwahanol grwpiau rhanddeiliaid (defnyddwyr, busnesau bwyd a llywodraeth leol a chenedlaethol). Yn sgil y gweithgareddau hyn, datblygodd yr ASB Fodel Gweithredu Targed yn amlinellu ei gweledigaeth o ran rheoleiddio'r system fwyd.

Roedd pedair elfen allweddol i'r Model Gweithredu Targed: Cofrestru Manylach / Caniatâd i Fasnachu (bydd busnesau'n cael rhagor o gymorth wrth sefydlu a bydd gofyn iddynt roi rhagor o wybodaeth i'r ASB am yr hyn y maen nhw'n ei wneud a sut); Segmentu (bydd busnesau'n cael eu segmentu yn ôl risg a'u trin yn unol â'r risg honno); Sicrwydd (bydd busnesau'n darparu tystiolaeth eu bod yn bodloni gofynion rheoleiddio a bydd yr ASB yn ystyried tystiolaeth gan drydydd partion); Digwyddiad / Ymyriad (bydd rheoleiddwyr yn dwyn busnesau i gyfrif ac yn ymyrryd os canfyddir nad yw busnesau yn cydymffurfio).

Er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu'r Model Gweithredu Targed, cynhaliodd yr ASB gyfres o ddigwyddiadau trafod â defnyddwyr, busnesau bwyd a rhannau eraill o lywodraeth leol a chenedlaethol drwy gydol 2017. Comisiynwyd Kantar Public i weinyddu Panel Defnyddwyr yr ASB.

Roedd y Panel Defnyddwyr yn fach o ran ei faint. Roedd yn cynnwys 14 aelod o'r cyhoedd a Chadeirydd a benodwyd gan yr ASB, sef Diane Cook. Diben y Panel oedd sicrhau bod cynlluniau'r ASB yn gwneud synnwyr, a helpu i fireinio'r Model Gweithredu Targed, yn hytrach na darparu canfyddiadau ymchwil manwl neu gynrychiadol.

Cynhaliodd y panel bedwar cyfarfod yn 2017, gyda chyfarfodydd yn digwydd ar ôl cyfarfodydd y panel busnes a'r panel rheoleiddwyr arbenigol a reolir yn uniongyrchol gan yr ASB. Roedd cynrychiolwyr perthnasol yr ASB yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel Defnyddwyr i gyflwyno gwybodaeth am y Model Gweithredu Targed. Hefyd, roedd Cadeirydd y Panel Defnyddwyr yn bresennol yng nghyfarfodydd eraill y panel i gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth rhwng paneli.

1.1 Canfyddiadau

1.1.1 Ymatebion cyffredinol i'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol a'r Model Gweithredu Targed

Roedd y panelwyr yn teimlo bod rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn angenrheidiol. Er nad oedd y panelwyr yn gwybod llawer am y ffordd y caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio yn y DU ar ddechrau'r gwaith ymchwil, unwaith yr oeddent yn dysgu bod llawer o'u rhagdybiaethau am system fwyd y DU yn anghywir (er enghraifft, bod pob busnes yn cael ei arolygu bob blwyddyn), roeddent yn teimlo bod angen moderneiddio'r system fwyd yn y DU.

Wrth ystyried y model gweithredu presennol, awgrymodd y panelwyr newidiadau a oedd yn cyd-fynd â'r rhai a awgrymwyd gan yr ASB yn y Model Gweithredu Targed. Roedd y panelwyr eisiau gweld mwy o

arolygiadau, a'i gwneud yn ofynnol i fusnesau gofrestru neu fod yn destun arolygiad cyn agor, a gwneud mwy o ddefnydd o fecanweithiau adborth sy'n bodoli eisoes (e.e. y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)).

Roedd y panelwyr yn cefnogi'r Model Gweithredu Targed yn eang pan gafodd ei amlinellu gyntaf gan yr ASB yng nghyfarfod cyntaf y Panel Defnyddwyr. Er bod ganddynt gwestiynau a phryderon, roeddent yn croesawu'r elfennau Caniatâd i Fasnachu a Chofrestru Manylach, a'r bwriad o fabwysiadu dull sydd wedi'i segmentu a'i dargedu ar gyfer arolygu busnesau. Parhaodd y gefnogaeth gyffredinol hon drwy gydol cyfnod y Panel Defnyddwyr.

1.1.2 Ymatebion i elfennau penodol o'r Model Gweithredu Targed

Yn dilyn cyfarfod cyntaf y Panel Defnyddwyr, aeth yr ASB ati i ddiwygio'r Model Gweithredu Targed yn unol ag adborth gan randdeiliaid a digwyddiadau ehangach (megis penderfyniad y DU i adael yr UE). Ar draws y sesiynau, roedd sgysiau'n canolbwyntio ar Ganiatâd i Fasnachu a Chofrestru Manylach, yn ogystal â Sicrwydd. Trafodwyd Segmentu ac Ymyrryd i raddau llai. Mae ymatebion y panelwyr wedi'u crynhoi isod:

Caniatâd i Fasnachu a Chofrestru Manylach

Cyflwynodd yr ASB newidiadau polisi i'r elfennau 'Caniatâd i Fasnachu' ac 'Ennill Cydnabyddiaeth' yn ystod oes y Panel Defnyddwyr. Yng nghyfarfod cyntaf y Panel, cafodd Caniatâd i Fasnachu ei ddisgrifio fel cysyniad a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gofrestru cyn sefydlu, gyda rhai busnesau risg uchel yn gorfod cael trwydded cyn y gallant weini bwyd i ddefnyddwyr. Roedd y panelwyr yn cefnogi hyn, ond byddai angen newidiadau deddfwriaethol i'w weithredu.

Mewn ymateb i benderfyniad y DU i adael yr UE, roedd yn rhaid i'r ASB ddiwygio'r cysyniad Caniatâd i Fasnachu. Mae disgwyl i benderfyniad y DU i adael yr UE fynnu cryn dipyn o amser seneddol, ac nid oedd yr ASB yn teimlo y byddai'r newidiadau deddfwriaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer yr elfen Caniatâd i Fasnachu yn gyraeddadwy yn y dyfodol agos.

O ganlyniad, newidiodd yr ASB 'Caniatâd i Fasnachu' i 'Ennill Cydnabyddiaeth'. Rhagwelodd yr ASB y byddai Ennill Cydnabyddiaeth yn cynnig manteision Caniatâd i Fasnachu heb olygu newidiadau deddfwriaethol. Byddai'r ASB yn dal i fynnu bod busnesau yn cofrestru, ond ni fyddai unrhyw drwydded cyn masnachu.

Er bod y panelwyr yn ffafrio cysyniad Caniatâd i Fasnachu, ac yn teimlo mai dyma'r nod i'r ASB yn y Model Gweithredu Targed, roeddent o'r farn bod Ennill Cydnabyddiaeth yn welliant ar y system gyfredol ac y gallai ddiogelu yn yr interim.

Segmentu

Roedd yr ASB yn bwriadu mabwysiadu dull seiliedig ar risg ar gyfer segmentu, gan gymryd i ystyriaeth hanes cydymffurfio busnes a nodweddion penodol busnes (math o fwyd sy'n cael ei baratoi, er enghraifft) i asesu risg.

Roedd y panelwyr yn cefnogi'r dull hwn, ac yn teimlo y byddai'n arwain at ymyriadau mwy cymesur a gaiff eu targedu'n well.

Sicrwydd

Cynigiodd yr ASB newid y ffordd y mae busnesau yn darparu tystiolaeth eu bod yn cydymffurfio â rheolaethau swyddogol. Roedd y newidiadau yn cynnwys caniatáu i fusnesau gyfrannu data trydydd parti a data mewnol at dystiolaeth gydymffurfio. Roedd hefyd yn cynnwys cyflwyno'r cysyniad Archwilydd Rheoleiddio Ardystiedig; Gall busnesau bwyd gyflogi Archwilydd Rheoleiddio Ardystiedig yn uniongyrchol i gynnal arolygiadau.

Roedd gan y panelwyr farn gymysg ar newidiadau arfaethedig yr ASB ar sicrwydd. Roeddent am sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle i sicrhau diogelwch defnyddwyr ac nad oedd perthynas amhriodol yn datblygu rhwng busnesau ac Archwilydd Rheoleiddio Ardystiedig. Roeddent o'r farn mai'r ASB a ddylai barhau i fod yn

atebol yn y pen draw am effeithiolrwydd system fwyd y DU. Fodd bynnag, byddai defnyddio'r Archwilydd Rheoleiddio Ardystiedig yn golygu bod modd cynnal rhagor o arolygiadau ac y byddai gan awdurdodau lleol rôl wirio a gorfodi. Roedd panelwyr yna'n cefnogi'r defnydd ohonynt.

Digwyddiad / ymyriad

Yn y Model Gweithredu Targed, cynigiodd yr ASB y byddai rheoleiddwyr yn ymyrryd ac yn gwirio busnesau mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol. Roedd "digwyddiadau" yn cynnwys problemau neu bryderon (megis achosion o wenwyn bwyd) a newidiadau mwy trefniadol mewn busnes (er enghraifft, newid mewn rheolaeth).

Roedd y panelwyr yn cefnogi'r dull hwn ac yn teimlo y byddai'n sicrhau bod adborth ar y system rheoleiddio bwyd. Roeddent o'r farn y byddai'n bwysig i "ddigwyddiadau" gael eu bwydo i mewn i unrhyw segmentu a bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu cynnig i fusnesau yn dilyn digwyddiad.

1.2 Casgliadau

At ei gilydd, roedd trafodaethau'r Panel Defnyddwyr yn awgrymu bod panelwyr, ar y cyfan, yn cefnogi newidiadau arfaethedig yr ASB ar sut y caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio a phrif nodweddion y Model Gweithredu Targed. Roedd trafodaethau hefyd yn amlygu nifer o themâu cyffredin a oedd yn ategu ymatebion y panelwyr ac y dylid eu hystyried wrth ddiwygio'r Model Gweithredu Targed ymhellach.

I ddechrau, yn gyffredinol, roedd panelwyr o blaid newid y model rheoleiddio presennol pan ddaethant yn ymwybodol o realiti'r system gyfredol. Nid oedd y panelwyr yn ystyried bod y gofynion neu'r prosesau presennol yn ddigon llym ac, o ganlyniad, roeddent yn teimlo y dylid eu diwygio. Er bod hyn wedi arwain at banelwyr yn cefnogi newidiadau arfaethedig yr ASB, efallai nad dyma fydd ymateb y cyhoedd yn ehangach, gan ei bod yn bosibl nad ydynt yn ymwybodol o'r modd y caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Dylai'r ASB ystyried y bwlch hwn mewn ymwybyddiaeth wrth gyhoeddi ei diwygiadau.

Yn ail, roedd panelwyr yn gweld elfennau o'r Model Gweithredu Targed yn arbennig o ddeniadol os oeddent yn credu y byddent yn gwneud safonau'n fwy llym. Roedd hyn yn sail i gefnogaeth panelwyr ar gyfer Caniatâd i Fasnachu a'r defnydd o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig. Roedd panelwyr yn rhagweld y byddai'r mesurau hyn yn sicrhau bod mwy o arolygiadau'n digwydd yn fwy rheolaidd yn y dyfodol ac y byddai busnesau yn cael cymorth mwy arbenigol sydd wedi'i dargedu. Roeddent yn rhagweld y byddai hyn yn arwain at safonau uwch ar draws system fwyd y DU.

Roedd awydd y panelwyr am safonau mwy llym hefyd yn cyfrannu at y galw cyson i'r ASB roi mesurau diogelu addas ar waith yn system y dyfodol. Er bod panelwyr yn derbyn rhywfaint o breifateiddio a'r defnydd o Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig, roeddent am sicrhau bod cyrff y sector cyhoeddus a'r ASB yn parhau i fod yn atebol am weithrediad effeithiol y system. Yn bennaf, roedd yr ASB am sicrhau nad oedd perthynas amhriodol yn datblygu rhwng busnesau bwyd a rheoleiddwyr.

Yn olaf, nid oedd panelwyr eisiau colli amrywiaeth y system fwyd bresennol y DU. Er bod y panelwyr yn teimlo ei bod yn briodol i fusnesau dalu costau rheoleiddio (yn enwedig yng ngoleuni'r pwysau ar adnoddau'r sector cyhoeddus), roeddent o'r farn y dylai'r costau fod yn gymesur. Roeddent yn ymwybodol na fyddai busnesau bach yn gallu fforddio cyflogi Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig na thalu i gofrestru fel rhan o'r elfen Caniatâd i Fasnachu. Felly, roeddent o'r farn y dylai'r ASB ddarparu cefnogaeth (costau cofrestru is, cyngor a chyfarwyddyd) i fusnesau llai a dylid ystyried maint y busnes wrth osod ffioedd cofrestru.